



## Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Plas Pengwaith**

**Cartref Henoed Plas Pengwaith  
Maes Padarn  
Caernarfon  
LL55 4TP**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

**Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad**

**3 Mai 2022**

**Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.**

*Gallwch ddefnyddio ac aildefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: [psi@nationalarchives.gsi.gov.uk](mailto:psi@nationalarchives.gsi.gov.uk)*

*Rhaid i chi atgynhychu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Phlas Pengwaith

Y math o ofal a ddarperir	Gwasanaeth cartref gofal Oedolion heb ofal nyrsio
Darparwr cofrestredig	Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Gwynedd
Lleoedd cofrestredig	31
Iaith y gwasanaeth	Y ddwy iaith
Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru	<a href="#">Mewnosod â llaw</a> Dyma'r arolygiad cyntaf o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.
A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg?	Ydy. Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio.

## Crynodeb

Mae Plas Pengwaith yn rhan fawr iawn o'r gymuned leol ac yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg a diwylliant Cymreig. Mae'r rhan fwyaf o'r staff a'r trigolion yn siarad Cymraeg a chlywsom hwy'n sgwrsio'n naturiol yn Gymraeg gyda'i gilydd. Mae cynlluniau personol y bobl yn canolbwyntio ar eu hanghenion a'u dewisiadau unigol ac mae'r bobl yn cymryd rhan yn y broses o lunio'u cynllun gofal. Mae'r cartref mewn cyflwr da ac yn gartrefol. Lle mae angen ailaddurno mannau neu brynu offer newydd, gwelsom fod y rhain wedi'u nodi a bod cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â'r materion hynny. Mae'r bobl yn elwa ar grŵp staff sefydlog sy'n rhoi gofal cyson. Mae llawer o'r staff wedi gweithio yn y cartref ers sawl blwyddyn. Mae'r gweithwyr cymorth gofal yn cael hyfforddiant rheolaidd i ddiweddarau eu harferion a chael sesiynau goruchwyllo i'w cefnogi yn eu rôl. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref ac yn adrodd ar ansawdd y gwasanaeth a ddarperir i'r bobl yn unol â'r rheoliadau. Mae'r cartref wedi profi amser heriol o ddechrau pandemig COVID-19 ac wedi dioddef colledion. Mae'r tîm wedi gweithio'n dda yn ystod y cyfnod hwn ac wedi parhau i roi gofal a chymorth da.

## Llesiant

Mae gan y bobl berthynas gyfeillgar â'r staff sy'n deall eu hanghenion. Mae'r bobl a'r gweithwyr cymorth gofal yn siarad yn gynnes am ei gilydd, a gwelsom fod y bobl yn cael dewisiadau unigol, priodol ynghylch sut i dreulio eu diwrnod. Dywedodd un o'r trigolion wrthym, *"Mae'n neis iawn yma, pawb yn ffeind. Rhan fwyaf o staff yn siarad Cymraeg. Mae 'na fwyd da iawn yma. Dim cwynion."* Dywedodd trigolion eraill, *"lle hyfryd i fod," "mae'r staff yn hyfryd", "mae'r bwyd yn dda, nid oes angen byrbrydau rhwng prydau gan eich bod mor llawn", "dim cwynion", "maen nhw'n groesawgar iawn i ymwelwyr."*

Mae gan y bobl Gynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg. Clywsom y gweithwyr cymorth gofal yn gwneud cwis dwyieithog gyda'r preswylwyr ac yn canu caneuon Cymraeg yn ddiweddarach. Mae arwyddion a dogfennau yn ddwyieithog, mae'r staff gofal yn ysgrifennu adroddiadau gofal dyddiol yn Gymraeg. Mae dewis iaith gyntaf y bobl yn cael ei nodi yn eu cynlluniau personol, ac mae hyn wedyn yn rhedeg drwy'r cynlluniau gofal unigol ac yn manylu ar sut i dawelu meddwl yr unigolyn yn ei ddewis iaith. Cynigir gweithgareddau amrywiol bob dydd, a rhennir hyn hefyd gyda'r teuluoedd gan ddefnyddio tudalen Facebook (cyfryngau cymdeithasol) bwrpasol. Mae'r teuluoedd yn cael eu cynnwys mewn rhai gweithgareddau fel te prynhawn, penblwyddi, a phrydau thema. Gwelsom gardiau "diolch" diweddar gan deuluoedd yn diolch i'r rheolwyr a'r gweithwyr cymorth gofal am ofalu am aelod o'u teulu ac am eu cynnwys mewn digwyddiadau.

Mae iechyd y bobl yn cael ei fonitro ac maent yn cael eu hatgyfeirio at weithwyr gofal iechyd proffesiynol mewn modd amserol. Mae cyfarwyddiadau a chanlyniadau asesiadau gweithwyr iechyd proffesiynol i'r bobl wedi'u nodi yn eu cynlluniau personol. Mae'r gwaith monitro iechyd yn dda ac mae'r gweithwyr cymorth gofal yn adnabod y bobl a'u hanghenion yn dda. Mae pandemig COVID-19 wedi gwneud ymweliadau â meddygon teulu yn anodd, ond dywedodd y rheolwr wrthym y gall y bobl gael mynediad at adolygiadau wythnosol dros y ffôn. Mae gan y cartref berthynas arbennig o dda gyda'r nyrsys ardal sy'n ymweld yn rheolaidd.

Mae'r staff gofal yn derbyn hyfforddiant ar ddiogelu oedolion sy'n agored i niwed. Roedd hyfforddiant yn bennaf ar ffurf e-ddysgu yn ystod y pandemig, ond mae rhywfaint o ddysgu wyneb yn wyneb bellach wedi'i ystyried. Dywedodd y staff cymorth gofal wrthym eu bod yn ymwybodol o'r broses ddiogelu a'u bod yn gwybod pwy y dylent gysylltu â nhw pe bai unrhyw broblemau. Gall y bobl gael mynediad at wasanaeth eirioli trwy wasanaethau cymdeithasol pe bai ei angen arnynt.

Gall y bobl gadw cysylltiad â phobl sy'n bwysig iddynt. Gall teulu a ffrindiau ymweld â'r bobl y tu mewn i'r cartref ar sail apwyntiad os yw'n ddiogel gwneud hynny o ran canlyniadau profion COVID-19. Mae gan y cartref bolisïau a gweithdrefnau COVID-19 ar waith. Gofynnir am ganlyniadau profion COVID-19 ymwelwyr cyn iddynt ddod i mewn i'r cartref. Mae'r bobl

a'r staff gofal yn cael eu cynorthwyo â'u profion a gallant gael mynediad at frechiadau pe baent yn dewis eu cael.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn derbyn y gofal sydd ei angen arnynt. Mae'r rheolwr yn cwblhau asesiad cyn i'r bobl gael eu derbyn i'r cartref i sicrhau bod y gwasanaeth yn gallu diwallu eu hanghenion. Rhoddir sylw i weithgareddau bywyd bob dydd y bobl yn eu cynlluniau personol er mwyn sicrhau eu bod yn cael gwasanaeth gofal priodol. Mae cynlluniau personol yn cael eu hadolygu'n fisol yn ogystal ag asesiadau risg i sicrhau iechyd a diogelwch y bobl. Byddai mwy o fanylion mewn cynlluniau personol ynghylch gofal y bobl yn cyfarwyddo'r gweithwyr cymorth gofal yn well ynghylch anghenion y bobl. Mae'r bobl yn cael eu cynnwys yn eu cynllun gofal a gallant ddylanwadu ar y gofal a gânt.

Gall y bobl gael mynediad at ddeiet a hylifau i gynnal eu hiechyd. Gwelsom fod hylifau a byrbrydau ar gael i'r bobl drwy gydol y dydd. Mae prydau bwyd yn cael eu coginio ar y safle gan ddefnyddio cynhwysion ffres. Gall y bobl gael dewis o brydau bwyd a gellir darparu ar gyfer deietau arbennig. Mae'r bobl yn bwyta gyda'i gilydd o amgylch byrddau sydd wedi'u gosod yn ddymunol ac mae ymdeimlad o gymuned yn y cartref. Mae pwysau'r bobl yn cael ei fonitro a cheisir cyngor arbenigol os oes unrhyw broblemau. Gall y bobl gyrchu cyngor arbenigol ynglŷn â'u hiechyd mewn modd amserol a chaiff unrhyw gyfarwyddiadau/canlyniadau eu nodi yn eu cynlluniau personol. Dywedodd y rheolwr wrthym fod y fferyllfa leol yn gefnogol o'r cartref yn bennaf a'u bod yn gallu cael gafael ar feddyginiaethau i'r bobl yn unol â'r presgripsiwn. Gwelsom fod yr ystafell feddyginiaeth wedi'i chloi'n ddiogel a'i bod yn drefnus. Mae'r prosesau ar gyfer archebu, storio, rhoi a chael gwared ar feddyginiaethau yn dda ac mae llwybr archwilio cadarn ar waith.

Mae'r cartref yn cadw at ganllawiau Iechyd Cyhoeddus Cymru mewn perthynas â phandemig COVID-19. Mae'r staff yn gwirio canlyniadau prawf COVID-19 ymwelwyr wrth ddod i mewn i'r cartref i sicrhau diogelwch y bobl. Gwelsom fod digon o gyfarpar diogelu personol yn y cartref. Gwelsom y gweithwyr gofal yn gwisgo cyfarpar diogelu personol yn briodol. Mae gorsafoedd diheintio dwylo trwy gydol y cartref; gwelsom y staff gofal yn eu defnyddio. Dywedodd y gweithwyr cymorth gofal wrthym eu bod wedi cael hyfforddiant ar y defnydd cywir o gyfarpar diogelu personol ac ynghylch materion a phroffion COVID-19.

## Yr Amgylchedd

Mae'r cartref yn lân ac yn gartrefol. Gwelsom fod y bobl yn gallu dod ag eitemau personol i addurno'u hystafelloedd i wneud iddynt deimlo'n gartrefol. Mae gan bob "tŷ" yn y cartref ei set o ystafelloedd, ystafell ymolchi, lolfa a chegin ei hun. Gwelsom fod rhaglen ailaddurno ar waith ac mae'r lolfeydd sydd wedi'u haddurno'n edrych yn ffres ac yn gartrefol. Mae offer lle mae angen cael rhai newydd wedi'u nodi, ac mae rhai newydd wedi'u harchebu. Mae ardaloedd i'w hailaddurno wedi'u nodi, ac mae cynlluniau ar waith i fynd i'r afael â hyn. Mae'r coridorau'n lân ac yn rhydd rhag unrhyw rwystrau. Mae'r ardaloedd tu allan yn daclus ac mae seddau ar gael i'r bobl eu defnyddio yn ystod tywydd braf. Gall y bobl gael mynediad at offer priodol ar gyfer eu gofal. Mae offer yn cael ei gynnal a'i gadw a'i wasanaethu yn unol â gofynion y gwneuthurwr.

Gwelsom fod asesiadau iechyd a diogelwch ar waith. Mae gwiriadau cynnal a chadw a tân yn gyfredol. Mae prosesau gadael mewn argyfwng neu os bydd tân yn bersonol i bawb fel bod y staff gofal a'r gwasanaethau brys yn gwybod beth yw'r ffordd orau o helpu'r bobl. Mae'r ystafell feddyginiaeth wedi'i diogelu. Cedwir gwybodaeth gyfrinachol yn ddiogel mewn swyddfeydd y gellir eu cloi.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae trefniadau llywodraethu ar waith i gefnogi'r gwaith o gynnal y cartref yn ddidrafferth. Mae'r unigolyn cyfrifol yn llunio adroddiadau asesu ansawdd ar y cartref fel sy'n ofynnol gan ddeddfwriaeth ac yn cynnal ymweliadau i oruchwylio'r gofal a roddir i'r bobl. Mae gan y rheolwr gymwysterau addas ac mae wedi'i gofrestru â Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r rheolwr yn y cartref bob dydd, a dywedodd gweithwyr cymorth gofal wrthym ei fod yn hawdd mynd ato a'i fod yn eu cefnogi. Mae strwythur rheoli cadarn yn y cartref gyda dirprwy reolwr hefyd ar waith.

Mae arferion recriwtio da yn y cartref. Gwelsom fod ffeiliau personél mewn trefn dda, a bod gwiriadau ar waith i sicrhau bod staff yn briodol ar gyfer gweithio gydag oedolion sy'n agored i niwed. Mae'r staff gofal yn derbyn hyfforddiant i sicrhau bod ganddynt sylfaen wybodaeth gadarn er mwyn darparu'r gofal sydd ei angen ar y bobl. Mae pandemig COVID-19 wedi cyflwyno heriau i'r gwasanaeth o ran hyfforddiant staff sydd wedi bod ar ffurf e-ddysgu, ac mae dychwelyd i ddysgu yn y dosbarth bellach yn cael ei ystyried. Dywedodd y staff cymorth gofal wrthym eu bod yn cael hyfforddiant, cymorth a goruchwyliaeth er mwyn cyflawni eu rôl bob dydd. Gwelsom fod y staff cymorth gofal yn cael eu goruchwyllo'n rheolaidd yn unol â'r rheoliadau, ac mae hyn yn sicrhau bod y staff yn cael eu cefnogi yn eu rolau dyddiol ac yn cyflawni tasgau yn unol â chanllawiau arferion gorau. Dywedodd y staff cymorth gofal eu bod yn hapus i fod yn gweithio yn y cartref, mae llawer wedi gweithio yno ers sawl blwyddyn ac yn gallu rhoi gofal cyson.

Nid yw'r gwasanaeth wedi datgan bod ganddo unrhyw bryderon ariannol. Mae rhaglen cynnal a chadw barhaus yn y cartref. Mae digonedd o stoc o fwyd ffres, ac roedd y cartref yn gynnes.

### Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio

Statws	Ystyr pob un
<b>Newydd</b>	Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn.
<b>Adolygwyd</b>	Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a bydd yn cael ei brofi yn yr arolygiad nesaf.
<b>Ni chyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni.
<b>Cyflawnwyd</b>	Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

### Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn.	Amherthnasol

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

### Maes/Meysydd i'w Gwella

Rheoliad	Crynodeb	Statws
Amherthnasol	Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn	Amherthnasol



	yn yr arolygiad hwn.	
--	----------------------	--

**Dyddiad cyhoeddi 28/06/2022**